

### **Cyflwyniad**

Mae adroddiad Estyn Chwefror 2019 wedi barni fod Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd Ebrill 2016. Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon.

Mae'r ysgol wedi llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion:

A1. Gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ymysg y disgyblion pryduau ysgol am ddim

A2. Gwella lefelau presenoldeb

A3. Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu drwy barhau i rannu'r arferion gorau sy'n bodoli yn yr ysgol

Wrth gynllunio Dysgu Proffesiynol ar gyfer y dyfodol mae angen ystyried cyd-destun y Cynllun Ymateb Ôl Arolygaeth 2019.

Mae cyfrifoldeb cyfunol arnom i **ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb** ein disgyblion wrth wireddu pedwar dibyn y cwricwlwm:

yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes  
yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith  
yn **ddinasyddion egwyddorol**, gwybodus yng Nghymru a'r byd  
yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriadwyd gwireddu hyn dros gyfnod y tair blynedd 2019-2022 trwy weithredu fel "Ysgol fel Sefydliad Dysgu" a thrwy ymroi i amcanion "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl".

### **Dysgu Proffesiynol Effeithiol**

Mae ymchwil addysg yn awgrymu'n gryf mai addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n dylanwadu fwyaf ar ddysgu disgyblion, o blith yr holl ffactorau addysg.

Mae tystiolaeth a geir trwy weithgarwch arolygu a chanfyddiadau arolygon thematig yn dangos mai dyma'r meysydd allweddol sy'n cyfrannu at ddysgu ac addysgeg broffesiynol lwyddiannus:

- creu'r **diwylliant a'r amodau cywir** ar gyfer dysgu proffesiynol
- **meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol** a chefnogol o fewn a rhwng ysgolion
- **ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil** a gwneud gwaith ymchwil
- **defnyddio data a thechnolegau newydd** fel sbardunau ar gyfer gwelliant ac arloesedd
- **dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol a datblygiad staff**

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod ysgolion yn rhoi bri mawr ar ddysgu, i staff yn ogystal â disgyblion, ac mai gwella addysgu oedd y broses allweddol a oedd yn cyfrannu at wella safonau disgyblion.

Mae adroddiad yr OECD, , yn datgan bod arferion a diwylliant ar draws sefydliad yn allweddol ar gyfer sefydliad dysgu llwyddiannus. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai'r elfennau sy'n hanfodol ar gyfer cydweithio ymhlith staff yw: **ymddiriedaeth, amser, technoleg a meddwl gyda'n gilydd.**

Mewn llawer o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg thematig hwn, mae uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella addysgu ac addysgeg. Yn gyffredinol, maent:

- yn **meithrin diwylliant o ymholi ac ymgysylltu**
- yn **ymddiried yn eu staff** i wneud dewisiadau proffesiynol yn meddu ar bolisi ystafelloedd dosbarth agored
- yn **creu cyfleoedd** ar gyfer deialog broffesiynol ynghylch addysgu
- yn rhoi **addysgu ac addysgeg fel eitemau agenda yn rheolaidd** mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr a staff
- yn **defnyddio diwrnodau datblygiad proffesiynol** fel cyfleoedd strategol i **archwilio mentrau pellach mewn addysgu a dysgu**
- yn creu amser dynodedig i athrawon gymryd rhan mewn **arsylwadau cymheiriaid ac ymchwil weithredu**
- yn **defnyddio ymchwil i lywio'r penderfyniadau** a'r strategaeth ar gyfer eu hysgol
- yn meddu ar **bolisiau ar gyfer addysgu**, adborth a'r cwricwlwm y mae **pob un o'r staff yn eu deall ac yn cadw atynt**
- yn **sefydlu perthnasoedd proffesiynol** yn eu rhanbarth **a thu hwnt**
- yn **gofyn am gyngor arbenigol**, ac yn gweithredu yn unol â hynny

**Blaenoriaethau i'w ystyried wrth gynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol:**

**Gwella presenoldeb disgyblion trwy ddatblygu ethos lle mae presenoldeb uchel yn gyfrifoldeb naturiol ar gyfer disgyblion os ydynt i elwa o safonau rhagorol lles ac addysgu'r ysgol wrth wireddu pedwar diben y cwricwlwm trwy.**

**Grymuso ein hysgol i gyflawni pedwar diben ein cwricwlwm newydd ym mhob cyd-destun ac yn gwella safon yr asesu ar gyfer dysgu.**

Gwella cysondeb ar draws Arweinyddiaeth Ganol gan sicrhau fod pob arweinydd canol yn cymryd cyfrifoldeb a bod yn atebol am safonau cyflawniad, gan:

- Sicrhau bod athrawon unigol yr un mor atebol am y disgyblion y maent yn eu haddysgu
- Adnabod arfer orau
- Ymgymryd â monitro rheolaidd, trwyadl er mwyn cynllunio ar gyfer gwella
- Monitro effaith y gweithgareddau gwella.
  - Yn dilyn gweithgareddau monitro, darparu adborth effeithiol ar gryfderau a meysydd i'w gwella ac ymgymryd â monitro pellach ar feysydd a nodwyd.
- Sicrhau ansawdd yng nghywirdeb asesu.
- Arfarnu yn gywir ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, mewn gwersi ac mewn asesiadau allanol
- Defnyddio data perfformiad disgyblion yn effeithiol i olrhain cynnydd

**Atgyfnerthu systemau a phrosesau hunan arfarnu a chynllunio i wella o fewn dysgu ac addysgu.**

**Gwella'r gwahaniaethu mewn gwersi gan sicrhau her briodol sydd yn codi uchelgais yr holl grwpiau o ddisgyblion.**

**Datblygu a gwella strategaethau i addysgu'r medrau meddwl a gwella ansawdd cwestiynu athrawon trwy**

**Gwella cysondeb ac effaith yr adborth diagnostig rhoddwyd gan athrawon a'r ffordd maent yn cynllunio amser 'dilyn i fyny' trwy AMAG trwy.**

**Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy rannu'r arfer dda yn ymwneud a'r amgylchedd dysgu i ddatblygu medrau:**

- (i) Ysgrifennu - ysgrifennu yn annibynnol ac atalnodi
- (ii) Darllen - gallu i ddadansoddi effaith technegau o fewn darnau darllen
- (iii) Llafar - ansawdd ymatebion estynedig

**Er mwyn gwireddu eu blaenoriaethau byddwn yn Arwain trwy:**

**1. Gosod amcanion arweinyddol heriol:**

- Parhau i ddatblygu cyfundrefn arweinyddol Uwch effeithiol ac arloesol sydd yn cynllunio'n strategol ac yn monitro a gwerthuso effaith gweithredu'r cynlluniau;
- Parhau i ddatblygu'r Uwch Dîm Arwain i sicrhau cysondeb ar gyfer y dyfodol; rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir
- Sicrhau fod gan bob aelod o'r Uwch Dîm Arwain cyfrifoldeb strategaethol ysgol gyfan allweddol wedi diffinio yn eglur:
  - Sicrhau fod gan bob Arweinydd Canol Uwch gyfrifoldeb strategaethol ysgol gyfan allweddol o dan arweiniad aelod o'r UDA
  - Sicrhau fod pob Arweinydd Addysgeg yn cyfrannu tuag at strategaethau ysgol gyfan wrth wella dealltwriaeth staff o addysgeg o dan arweiniad aelod o'r UDA
- Parhau i ddatblygu rôl Rheolwyr Cyswllt
  - Aelodau o'r uwch Dîm arwain yn ymateb i'r cyfleoedd i gyfrannu at gynlluniau ysgol gyfan, arolygon a phaneli ymgynghorol lleol a chenedlaethol (EAS/Llywodraeth Cymru/Estyn)
- **Cyd-adeiladu strategaeth ysgol gyfan** a sicrhau hyfforddiant priodol er mwyn i arweinwyr canol ac athrawon gweithredu'r strategaethau o fewn yr ystafell dosbarth.
- **Casglu tystiolaeth llaw gyntaf er mwyn adnabod a rhannu'r arfer dda,**
- **Gwirio ansawdd y strategaethau** trwy gynnal teithiau dysg ac arsylwadau gwersi yn ogystal â chasglu barn disgyblion.
- **Cefnogi arweinwyr canol** wrth gasglu tystiolaeth llaw gyntaf ar y cyd gan ddefnyddio'r holl ffynonellau er mwyn adnabod yr arfer orau yn gywir.
- **Sicrhau Rheolaeth Llinell effeithiol o arweinwyr canol** i gynnwys cyfarfodydd ffurfiol gydag agenda cyffredin a chyfarfodydd cerrig milltir.
- **Coetsio arweinwyr canol:**
  - ar ddefnyddio tystiolaeth llaw gyntaf sy'n deillio o arsylwadau, teithiau dysgu, samplau llyfrau, archwilio'r cynllunio, dadansoddi data monitro cynnydd a llais y disgybl, gan sicrhau eu bod yn arfarnu'r effaith trwy ystyried safonau, cynnydd a medrau.
  - i adnabod a rhannu'r arferion gorau o fewn eu hadrannau
  - i adnabod meysydd i ddatblygu penodol ynghyd a dull gweithredu a ffordd o werthuso'r effaith.
  - ar ysgrifennu HAA a CDA effeithiol sydd ffocysu yn benodol ar ansawdd y dysgu a'r addysgu.
  - ar sut i ysgrifennu yn arfarnol, gan ddefnyddio geirfa meintioli, fel bod agweddau penodol sydd angen eu datblygu yn yr addysgeg yn cael eu hadnabod yn gywir a bod cynlluniau cadarn yn eu lle i'w datblygu.
  - i ddarparu sesiynau coetsio a mentora athrawon.

2. Arwain cyfundrefn cefnogi'r staff er mwyn sicrhau fod **pob aelod o staff yn cael y cyfle i wireddu eu potensial** gan feithrin **gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr** trwy:

Adnabod ymarfer rhagorol

Sicrhau cyfleoedd i ymarferwyr:

- weld ymarfer dda yn weithredol
- profi'r ymarfer dda

**Datblygu ymhellach rôl Arweinwyr addysgeg** wrth ddarparu dysgu proffesiynol i staff wrth ffocysu ar gynllunio i wahaniaethu a herio disgyblion yn effeithiol ar sail ymchwil sy'n deillio o weithgareddau casglu tystiolaeth:

- **Cydweithio gyda thîm o athrawon syn awyddus i ddatblygu ymhellach**
- Cefnogi athrawon sy'n adnabod yr angen am ddatblygiad personol er mwy'n gwella eu perfformiad yn yr ystafell ddosbarth e.e. ym maes llythrennedd/rhifedd
- Adnabod anghenion a threfnu cefnogaeth/cyfle i arsylwi cymheiriaid
- Sesiynau dysgu proffesiynol wedi eu teilwra i goetsio a mentora arweinwyr pwnc i ddatblygu agweddau o wahaniaethu a sicrhau her a strategaethau effeithiol o fewn eu hadrannau.
- Datblygu triawdau cynllunio, addysgu a gwerthuso er mwyn caniatáu i staff treialu ffyrdd newydd o wahaniaethu a herio grwpiau o ddisgyblion.
- Defnyddio'r ETLF i adnabod agweddau penodol o'r gwahaniaethu a'r herio sydd angen eu datblygu ar lefel adrannol ac ar lefel ysgol gyfan.
- Arfarnu addysgeg (Gwahaniaethu, her ac uchelgais) i gynnwys sampl llyfrau, teithiau dysgu a chyfweliadau gydag arweinwyr.

### **Arweinyddiaeth Ganol**

Datblygu cyfundrefn Dysgu Proffesiynol er mwyn datblygu arweinyddiaeth a darpariaeth lle mae'r deilliannau yn eglur ac yn fesuradwy:

- Parhau i ddatblygu cyfundrefn arweinyddol ganol o'r safon uchaf
- Parhau i ddatblygu'r arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol
- Datblygu cyfloed i arweinwyr canol arwain a chyfrannu at baneli ymgynghorol a Chymunedau Dysgu/Rhwydweithiau proffesiynol mewnol ac allanol
- Parhau i ddatblygu rôl Rheolwyr Llinell a Gwerthuswyr
- **Defnyddio'r ETLF i adnabod agweddau penodol o'r addysgeg sydd angen eu datblygu ar lefel adrannol ac ar lefel ysgol gyfan.**

### **Athrawon**

Byddwn yn datblygu tîm grymus, aml-dalentog, gan gynnwys ANG a fydd yn cydweithio yn effeithiol wrth gyfrannu tuag at strategaethau gwelliant gan **hybu dealltwriaeth staff o addysgeg** ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion:

- Cymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad a'i ddysgu proffesiynol ei hun a chyfrannu tuag at ddatblygiad eraill.
- Cymryd rhan mewn **Rhaglenni Dysgu Proffesiynol**
- Datblygu Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm
- Cyfrannu tuag at ffurfio **nodau ac amcanion** yr ysgol
- **Datblygu gwaelodlin** ar gyfer ansawdd addysgu holl athrawon yr ysgol er mwyn adnabod anghenion datblygu wrth ystyried agweddau addysgeg ar lefel athro unigol.
- **Sicrhau bod yr holl athrawon yn cynllunio yn effeithiol.**
- **Rhannu'r arfer dda ar draws yr ysgol** trwy ffilmio rhannau o wersi yn ffocysu yn benodol ar gwestiynau a datblygiad y medrau meddwl.

### **Tîm Cefnogi Addysgeg**

Y mae'r Tîm Cefnogi Addysgeg yw'r staff cynorthwyol sy'n cefnogi strategaethau dysgu ac addysgu'r ysgol.

Mae gweledigaeth yr ysgol yn amlinellu ein cred y bydd pob disgybl yn derbyn cyfleoedd i wireddu eu potensial os gallwn alluogi'r staff hefyd i wireddu eu potensial. Rydym felly yn datblygu strategaethau fel gallwn wneud y defnydd fwyaf effeithiol o'r staff cynorthwyol.

Nid yw pawb sydd â chymwysterau addysgu uchel yn addas i fod yn athrawon sydd â'r hyder i gynnal gwersi ar gyfer nifer sylweddol o ddisgyblion ond yn sicr mae gan amrywiaeth eang o unigolion gyfraniad sylweddol i'w wneud wrth addysgu disgyblion a hybu a datblygu dealltwriaeth estynedig ymhlith addysgwyr o anghenion datblygu pobl ifanc.

Y mae Datblygu Tîm Cefnogi Addysgeg yn ganolog i gynllun datblygu'r ysgol i gorffori holl staff yr ysgol fel cyfranwyr i ddatblygiad addysgol ein disgyblion.

Ein blaenoriaeth wrth gynllunio Dysgu proffesiynol ar gyfer Tîm Cefnogi Addysgeg yw paratoi ar gyfer cyflwyno Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) erbyn Medi 2022.

### **3. Sicrhau safonau uchel yn yr ystafell ddosbarth:**

- Pob athro i gael y cyfle i wireddu eu potensial yn yr ystafell ddosbarth:
  - Cydnabod gallu pob athro i fod yn athro Da neu Dda iawn
  - Arwain Dysgu ac Addysgu drwy'r cynllun Rhaglenni Dysgu Proffesiynol
  - Safonau addysgu uchel yn allweddol wrth benodi athrawon
  - Adnabod anghenion adrannau/strategaethau am ddatblygiad proffesiynol penodol
  - Adnabod anghenion unigolion am gefnogaeth broffesiynol benodol
  - Arweinwyr Addysgeg yn arwain strategaethau yn yr ystafell ddosbarth
  - Arsylwi cymheiriaid yn elfen naturiol o weithdrefnau'r athrawon, yn ffocysu ar ddatblygiad llythrennedd a rhifedd, ac yn fodd o gynnal a chodi safonau

## Amserlen cyflwyno Ysgol gyfun Cwm Rhymni

### Byddwn ni fel ysgol yn sicrhau ein bod ni yn:

- Ysgol gref a chynhwysol sydd wedi **ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.**
- **Datblygu Arweinwyr sy'n ysbrydoli** ac sy'n cydweithio i godi safonau.
- Datblygu **proffesiwn addysg o safon uchel.**

### Yn ystod y cyfnod tan 2019-22, ac yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm newydd, byddwn yn:

- Parhau i dyfu fel **sefydliad sy'n dysgu** gan ffocysu ar **ddefnyddio ymchwil addysgeg ddibynadwy** gan sicrhau bod unrhyw strategaethau yn cael i fyfyrion yn effeithiol
- **yn ymrwymo i rannu tystiolaeth ymchwil ac ymarfer effeithiol**
- cynyddu ein cyswllt gyda phrifysgolion y tu hwnt i addysg gychwynnol athrawon ac adeiladu ar eu rôl o ran cefnogi proffesiwn sy'n ymwneud ag ymchwil
- **datblygu sail wybodaeth, arbenigedd ac ymchwil y system hunanwella** drwy gefnogi **cydweithio o fewn yr ysgol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion**, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch
- adeiladu ar ein hymrwymiad i degwch mewn addysg drwy baratoi ar gyfer gyflwyniad fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr drwy Fil **Anghenion Dysgu Ychwanegol** a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- rhoi rhyddid i'n hymarferwyr ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys **plant sy'n derbyn gofal** a'r rhai sy'n **ofalwyr.**
- cyfranu tuag at ddatblygu dull gweithredu gwedd newidiol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg trwy weithredu fel **sefydliad hwb addysg yr iaith Gymraeg.**
- **ymestyn a hybu profiadau ehangach dysgwyr** fel bod dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd dysgu gorau posibl yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- **cefnogi rhaglenni dysgu yn yr haf** o safon, gan sicrhau nad yw ein pobl ifanc yn colli tir o ran eu dysgu yn ystod yr haf, er mwyn helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad
- **datblygu cydweithrediad mwy effeithiol gyda'r asiantaethau lleol gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol**
- **monitro perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr**, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.
- **gwella deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ein chweched dosbarth**
- **parhau i gydweithio ac adeiladu ar lwyddiant Rhwydwaith Seren**

**I gyflawni hyn, byddwn yn cynllunio i wneud y canlynol.**

**2019-2020**

- Parhau i dyfu fel **sefydliad sy'n dysgu** gan ffocysu ar **ddefnyddio ymchwil addysgeg ddibynadwy** gan sicrhau bod unrhyw strategaethau yn cael i fyfyrion yn effeithiol
- **Sefydlu Safonau addysgu proffesiynol ar waith yn ganolog i gyfundrefn Gwireddu Potensial yr ysgol.**
- Parhau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac i'w ddefnyddio drwy ddarpariaeth arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol ar lefel ysgol ac mewn cydweithrediad ag ysgolion arall.
  - Parhau i dreialu'r cwricwlwm ac yn ei roi ar brawf; cynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau.
  - Ymateb i ymgynghoriad ar gwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd (*Pasg 2019*)
- **Cyflwyno gweithgareddau i wella dysgu yn yr haf (*Haf 2019*).**
- Cydweithio â phartneriaid, yng Nghymru a thu hwnt, ar **ffyrdd effeithiol o fesur lles dysgwyr.**
- **Diwallu anghenion pob dysgwr** ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â gofynion y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol** a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (*BADYTAC*)
- Cefnogi partneriaid allweddol i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn galluogi ymarferwyr allweddol i ddod yn **ymwybodol o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod.**

Yn benodol byddwn yn:

- **Parhau i ddatblygu cyfundrefn Monitro, arfarnu a gwella presenoldeb a phrydlondeb ar draws yr ysgol.**
- **Parhau i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus.**
- **Arfarnu safonau cyrhaeddiad CA4 ac ôl 16 gan ymateb yn unol â chanfyddiadau**
  - Defnyddio ALPS fel modd o ddadansoddi data a gosod targedau heriol yn CA4 a CA5.
- **Parhau i ddatblygu rhaglen cydlynus i ddatblygu dysgu proffesiynol yr holl staff**
  - Datblygu strategaeth Ymchwil Gweithredol
- **Parhau i wella trefniadau pontio ar gyfer ein holl ddysgwyr ar bob adeg allweddol.**
- Parhau i arwain datblygiad cydweithrediad ar draws y clwstwr ar gyfer BADYTAC
  - Arwain y clwstwr wrth ddatblygu strategaeth MATH
  - Parhau i ddatblygu strategaeth i gefnogi gofalwyr ifanc yn yr ysgol, y clwstwr a ddau glwstwr arall yn y sir
  - Arwain y clwstwr wrth ddatblygu strategaeth lles
- **Parhau i wella safon addysgu er mwyn ymestyn ein dysgwyr**
  - **Lleihau'r amrywiad yn yr addysgu a datblygu llais y disgybl a theithiau dysgu i gasglu tystiolaeth ehangach, gyda ffocws arbennig ar adborth diagnostig ac AMAG**
  - Gwella perfformiad yn y prif fesurau allweddol yn ogystal â safonau medrau'r disgyblion
  - Gwella lles ein disgyblion gan dalu sylw arbennig at bresenoldeb
  - Gwella arweinyddiaeth trwy barhau i weithio fel 'Ysgol sy'n Sefydliad Dysgu' (SLO)
  - Parhau i weithredu fel ysgol arweinyddol yn y meysydd Dyfodol Llwyddiannus, Creadigol a Dysgu Byd Eang.



## 2019-2020

- **Gwireddu Cynllun ôl Arolygaeth yr ysgol trwy ddatblygu:**
  - Rhagleni dysgu Proffesiynol
  - Cymhwysedd Digidol ym mhellach
  - cyfundrefn asesu Cwricwlwm i Gymru ar y cyd gyda'r cynradd
  - Grwpiau Ffocws Rhieni a staff
- Cyflwyno'r cwricwlwm i Gymru
- Cydweithio gyda darparwyr rhaglenni addysg gychwynnol athrawon newydd.
- Cynllunio er mwyn gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru),
- Clymu mewn trafodaeth broffesiynol ar ETLF i wireddu potensial yr athro

## 2020-2021

- **Ymateb i hunan arfarniad 2019-20**
- Cymhwyso cyfundrefn asesu Cwricwlwm i Gymru
- Adnabyddiaeth fel Ysgol Arloesol Cymhwysedd Digidol

## Cefnogaeth a Her

Yn sgil cynhadledd PIAP (05/06/19) lle beirniadwyd y GCA am ddiffyg cefnogaeth cyfrwng Cymraeg fe newidiwyd ein Hymgyngorydd Her a chyflwynwyd Ymgynghorydd Cefnogol. Mae disgwyl i'r Ymgynghorydd Her gweithio gyda'r ysgol am 15 diwrnod a'r Ymgynghorydd Cefnogol am 25 diwrnod. Mae'r Ymgynghorydd Cefnogol wedi trefnu i weithredi yn bennaf ar ddydd Gwener.

Y mae'r Ymgynghorydd Cefnogol yn amlwg yn cael ei dalu i weithio gyda'r ysgol. Serch hynny nid ydym ni yn derbyn cyllid i ryddhau staff felly fe fydd angen clustnodi cyllid ar gyfer rhyddhau aelodau o'r UDA ac Arweinwyr Canol ar gyfer yr holl ddyddiau mae Ymgynghorydd Cefnogol yn ymweld â'r ysgol.

## Rhaglenni Dysgu Proffesiynol

Byddwn yn datblygu'r dysgu a'r addysgu ymhellach trwy gyfres o raglenni Dysgu Proffesiynol. Bwriadwn felly datblygu tîm o arbenigwyr ymhlith ein staff trwy gydweithio mewn triawdau **C**ynllunio, **A**ddysgu a **M**yfyrio (CAM) yn ffocysu ar un o'r agweddau addysgeg isod:

1. Gwahaniaethu, her ac uchelgais
2. Technegau cwestiynu, ymatebion estynedig a medrau meddwl
3. Adborth diagnostig ac AMAG
4. Llythrennedd (i gynnwys atalnodi)
5. Uwch fedrau cymhwysedd digidol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-20 byddwn yn rhedeg dau gylched o'r Rhaglenni Proffesiynol:

- Medi 2019- Rhagfyr 2019
- Ionawr 2020 - Mawrth 2020

Byddwn yn cyflawni hyn trwy gynllun **3 Ton**:

**Ton 1:** Hyfforddiant ac ymchwil cychwynnol

- Trafod y cynllun h.y. triawdau CAM:
- Hyn fydd sail Gwireddu Potensial 2019-20
- Defnydd yr ETLF
- Nodi ffocws penodol (sef ffocws y pecyn dysgu proffesiynol)
- Trafod a chytuno ar yr arfer mwyaf effeithiol (dangos enghreifftiau ble yn bosib)
- Trafod y defnydd o'r amgylchedd dysgu i ddatblygu'r ffocws ymhellach
- Trafod unrhyw ymchwil/data sy'n cefnogi'r cynllun dysgu proffesiynol

**Ton 2:** Staff yn cydweithio mewn triawdau CAM

### **Cynllunio ar y cyd**

- Nodi ffocws penodol y cynllunio (sef ffocws y pecyn dysgu proffesiynol)
- Trafod yr arsylwadau - 3 arsylwad unigol, neu arsylwad addysgu ar y cyd?
- Cytuno ar ddyddiad ac amser ar gyfer y 3 arsylwad
- Defnyddio'r ETLF i gynllunio'r addysgu ar y cyd, gan dalu sylw arbennig i'r effaith ar y dysgu.
- Cytuno beth fydd yn cael ei gofnodi yn ystod yr arsylwadau
- Ystyried unrhyw wybodaeth ategol er mwyn gallu ystyried yr effaith ar y dysgu e.e. llais y disgybl, sampl llyfrau.

### **Addysgu**

- Canolbwyntio ar ffocws y dysgu proffesiynol
- Nid oes angen cofnodi'r hyn sy'n digwydd yn ystod y sesiwn Yn lle, ffocysu ar yr arfer dda yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- Defnyddio'r ETLF i ystyried yr effaith ar y dysgu.
- Ystyried gwybodaeth ategol - e.e. llais disgyblion, llyfrau, dilyniant yn y dysgu.

### **Myfyrio**

Dylai hyn fod yn ddeialog rhwng y triawdau yn ffocysu ar effaith y strategaethau ar ddeilliannau dysgu gan:

- Nodi agweddau positif a beth oedd heb weithio cystal
- Trafod sut y gellir mireinio strategaethau ymhellach
- Ystyried unrhyw wybodaeth ategol

Monitro effaith trwy arfarniad addysgeg (tymor y Nadolig)

e.e. trwy ddadansoddi data, casglu barn disgyblion, arsylwadau pellach a.y.y.b.

**Nid arfarnu'r addysgu yw'r pwrpas, ond yn hytrach i roi cynnig ar strategaethau newydd i ddatblygu elfen benodol o'r addysgeg ar y cyd, ac yna rhannu'r arfer dda.**

Disgwylir i'r mwyafrif o athrawon datblygu'r dysgu a'r addysgu ymhellach trwy weithredu'r triawdau yn effeithiol yn ystod ton 1 a 2. Serch hynny fe fydd angen i leiafrif derbyn cefnogaeth ychwanegol trwy don 3.

**Ton 3 : Ysgolion LNS**

- Cefnogaeth ymgynghorwyr
- Arweinwyr addysgeg

**Partneriaeth Gydweithredol Ysgol i Ysgol**

**Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg De-ddwyrain Cymru:** Triawd Ysgolion Uwchradd De-ddwyrain Cymru. Y mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac Ysgol Gyfun Gwynllyw wedi ffurfio Rhwydwaith Cefnogaeth Dysgu'r GCA Cyfrwng Cymraeg, neu driawd, er mwyn cydweithio wrth ddatblygu dealltwriaeth o addysgeg a chymhwys strategaethau arweinyddiaeth effeithiol ar draws Addysg Cyfrwng Cymraeg Rhanbarth de Ddwyrain Cymru.

Y mae gwaith y rhwydwaith yn cael ei arwain gan aelodau o Uwch Dîm Arwain y tair ysgol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd a chynladwyaeth gweithgareddau'r rhwydwaith trwy Gynllun Strategol i Ddatblygu Partneriaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Triawd Ysgolion Uwchradd De-ddwyrain Cymru. Mae'r Triawd wedi sefydlu Is Bwyllgor Cydd Lywodraethol ar y Cyd er mwyn arfarnu cydweithrediad ar draws y tair ysgol.

**HEXAD**

Mae partneriaeth o chwe ysgol yn cydweithio wrth ddatblygu arweinyddiaeth. Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Gyfun Risca, Ysgol Uwchradd John Frost ac Ysgol Uwchradd Lliswerry. Prif ffocws y cydweithrediad ar gyfer 2019-20 fydd:

• **Arweinyddiaeth Disgyblion**

Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth a chydweithrediad disgyblion ar draws yr ysgolion yng nghyd-destun cyfrannu at y Meysydd Dysgu a Phrofiad cwricwlwm i Gymru. Cyflwyno sesiynau a gweithdai, yn ogystal â phedwaredd gynhadledd flynyddol. Sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed gan ganolbwyntio ar ymchwil yn seiliedig ar weithredu.

• **Arweinyddiaeth Athrawon**

Parhau i ddatblygu uwch arweinyddiaeth trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio uwch arweinwyr a phecyn pwrpasol ar gyfer darpar Benaethiaid ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar draws yr Hexad.

• **Llywodraethwyr**

Parhau i ddatblygu arbenigedd ar draws Cyrff Llywodraethu Hexad, a threialu'r pecyn cymorth hunan arfarnu fel ffordd o rannu arfer gorau.

• **Dwyieithrwydd**

Archwilio posibilïadau ar gyfer cydweithredu yn y maes hwn trwy ymchwil yn seiliedig ar weithredu a'r syniad o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer

hyrwyddo dysgu Cymraeg yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Parhau i ddangos ac enghreifftio sut nad yw iaith yn rhwystr i gydweithio rhwng ysgolion.

### **Ysgol Rhwydwaith Dysgu (LNS School)**

Yn rhinwedd ein categori fel ysgol sydd angen gwelliant sylweddol mae'r GCA wedi clustnodi Ysgol gyfun Ystalyfera fel ein hysgol Rhwydwaith Dysgu.

Dewisir ysgolion i ddarparu cefnogaeth rhwydwaith dysgu i ysgolion eraill ar sail:

- Mae canlyniadau TGAU dros y 3 blynedd diwethaf yn dangos bod gan yr ysgol y gallu i gynnal ansawdd uchel a chefnogi eraill.
- Mae gan yr ysgol dîm effeithiol, ymgysylltiol ac uchelgeisiol o athrawon.
- Mae ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys yr amgylchedd dysgu a llyfrau disgyblion yn dda neu'n rhagorol yn gyffredinol.
- Mae ansawdd a chywirdeb hunan arfarnu ysgol yn dda neu'n rhagorol.
- Mae'r Pennaeth Ysgol yn gwybod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu.
- Mae hunan arfarniad ysgol yn gywir a chadarn ac yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol.
- Mae ansawdd cynllunio gwella'r ysgol yn dda neu'n rhagorol.
- Mae gan yr ysgol hanes da o wneud gwelliannau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, cynnydd a lles disgyblion.
- Mae gan yr ysgol asesiad effeithiol ar gyfer arferion dysgu a threfniadau monitro, olrhain ac adrodd ysgol dda sy'n effeithio ar gynnydd dysgwyr a grwpiau unigol, gan gynnwys dysgwyr agored i niwed.
- Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu sgiliau 'sydd wedi'i arwain, ei gydlynu a'i gynllunio'n systematig ar draws yr ysgol.
- Mae llyfrau ac amgylcheddau dysgu disgyblion yn dystiolaeth o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Y mae'r Ysgol Rhwydwaith Dysgu yn derbyn cyllid er mwyn rhyddhau staff i weithio gyda'r ysgol sydd angen gwella. Serch hynny nid yw'r ysgol sydd angen gwella yn derbyn cyllid i ryddhau staff felly fe fydd angen i ni glustnodi cyllid ar gyfer y cydweithio

### **Ffynonellau Cyllid**

Mae'r ysgol yn derbyn grantiau oddi wrth amrywiaeth o ffynhonellau:

<b>Ffynonellau Cyllid</b>		<b>Gwariant yn y Cynllun</b>	
	Awdurdod Lleol Caerffili	£4,311	1.72%
PDG	Grant Amddifadedd Disgyblion	£7,206	2.87%
GDP	Grant Dysgu Proffesiynol	£89,879	35.80%
Ysgol	Gwariant yr ysgol	£149,691	59.62%

## Calendr Gweithgareddau Ysgol Gyfan

### Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)

#### Dydd Llun (02/09/19): Addysgeg

##### Hyfforddiant Ysgol Gyfan

- **Rhaglenni Dysgu Proffesiynol**
  - Llythrennedd [atalnodi]
  - Gwahaniaethu, Her ac Uchelgais
  - Adborth diagnostig ac AMAG
  - Technegau cwestiynu, ymatebion estynedig a medrau meddwl
  - Uwch Fedrau Cymhwysedd Digidol
- **Gwerthoedd Craidd** –Llythrennedd Emosiynol
- **Blaenoriaethau**
  - Canlyniadau
  - Lles a phresenoldeb
  - Dysgu ac Addysgu
  - Monitro cynnydd

##### Arweinyddiaeth Ganol:Atebolrwydd a chyfrifoldebau

#### Dydd Gwener (25/10/19)

##### Hyfforddiant Ysgol Gyfan

- **Rhaglenni Dysgu Proffesiynol**
  - Llythrennedd [atalnodi]
  - Gwahaniaethu, Her ac Uchelgais
  - Adborth diagnostig ac AMAG
  - Technegau cwestiynu, ymatebion estynedig a medrau meddwl
  - Uwch Fedrau Cymhwysedd Digidol

##### Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg De- ddwyrain Cymru

Hyfforddiant Anghenion Addysgol ychwanegol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu

- Ymwybyddiaeth yr amenydd (ACEs)
- Dulliau Adferol
- Arferion Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Dysgu gyda ASD
- Barriers to Learning Toolkit

**Dydd Llun (09/12/19) : CYDAG/CBAC/Cwricwlwm i Gymru**

**Hyfforddiant Ysgol**

**Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg De- ddwyrain Cymru**

Hyfforddiant Anghenion Addysgol ychwanegol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu

**Hyfforddiant CBAC**

(Athrawon yn mynychu cyrsiau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws De Cymru)

- TGAU Iaith Cymraeg
- TGAU Llenyddiaeth Cymraeg
- TGAU Iaith Saesneg
- TGAU Llenyddiaeth Saesneg
- TAG Llenyddiaeth Saesneg
- TAG/TGAU Bioleg
- TAG/TGAU Cemeg
- TAG/TGAU Ffiseg
- TAG/TGAU Gwyddoniaeth
- TAG Mathemateg

**Hyfforddiant CYDAG**

(Athrawon yn mynychu cyrsiau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws De Cymru)

- Mathemateg/Rhifedd
- Addysg Gorfforol
- Arlwyo
- Astudiaethau Crefyddol
- Celf
- Cerddoriaeth
- Cyfrifiaduro/Technoleg Gwybodaeth
- Cyfryngau/Drama
- Daearyddiaeth
- Dylunio a Thechnoleg
- Hanes
- Ieithoedd Modern Tramor
- Tystysgrif Her Sgiliau
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Busnes

**Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)**

**Dydd Llun (06/01/20): Addysgeg**

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**

- Arweinyddiaeth ganol:Hunan arfarniad
- **Rhaglenni Dysgu Proffesiynol**
  - Llythrennedd [atalnodi]
  - Gwahaniaethu, Her ac Uchelgais
  - Adborth diagnostig ac AMAG
  - Technegau cwestiynu, ymatebion estynedig a medrau meddwl
  - Uwch Fedrau Cymhwysedd Digidol

**Dydd Llun (22/06/20): Cwricwlwm i Gymru**

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**

- Cwricwlwm i Gymru: Dechrau Cynllunio ar gyfer Medi 2019
- Mwy abl a Thalentog: Strategaeth mapio ar draws y cwricwlwm
- Amgylchedd Dysgu:Strategath Ysgol Gyfan
- Cymhwysedd Digidol: Strategaeth mapio ar draws y cwricwlwm
- Hyfforddiant Anghenion Addysgu Ychwanegol

**3 Cyfnod Cyfnos ddydd Llun (15:15-17:00)**

**Ionawr (20/01/20)**

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**

- Rhaglenni Dysgu Proffesiynol
- Cwricwlwm i Gymru – Cynllunio wythnos yr Eisteddfod
- Adrannol (paratoi'r tasgau uchod)

**Mawrth (09/03/20)**

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**

- **Rhaglenni Dysgu Proffesiynol**
- Cwricwlwm i Gymru: Dechrau Cynllunio ar gyfer Medi 2020
- Llythrennedd :Cynhwysion allweddol, Sylfaenol mynegiant a chyfathrebu – Pyramidiau
- Hyfforddiant Anghenion Addysgol ychwanegol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu

**Mai (11/05/20)**

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**

- Rhaglenni Dysgu Proffesiynol
- Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio ar gyfer Medi 2020
- Arweinyddiaeth Ganol: Hunan Arfarniad
- Hyfforddiant Anghenion Addysgol ychwanegol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu

**Cyfarfodydd Addysgeg: Datblygu Arweinyddiaeth Ganol**

- ✚ Strategaeth Sgiliau (24/09/19 a 26/09/19)
- ✚ Rhaglenni Dysgu Proffesiynol (16/10/19)
- ✚ Rhaglenni Dysgu Proffesiynol (11/12/19)
- ✚ Rhaglenni Dysgu Proffesiynol (18/03/20)
- ✚ Hunan Arfarnu 2018-2020 (20/05/20)
- ✚ Cynllun Datblygu 2020-2020 (17/06/20)